

**Mae Ein Cymuned ni'n Bwysig**










Hen Ysgol Babanod Glynrhedynog



Pwy oedd yno?

Y Pwyllgor

Prif Gynhaliwr:

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

THE FERN PARTNERSHIP

grassroots trust

InterLink
Rhondda Cynon Taf

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

People 1st

Arts Factory
no more throw-away people



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CWM TAF
PUBLIC SERVICES BOARD





Cynghorwyr Lleol



Beth a ddywedodd pobl?




***"Rydw i'n teimlo fel rhan o'r gymuned"***

Roedd 100% o'r unigolion a gymerodd rhan yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw hi i fanteisio ar asedau rhwydweithau cymunedol Rhondda Fach Uchaf.



***"Rydw i'n gwybod sut i gael mynediad i'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arna i a'r teulu"***

Roedd 78% o bobl yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Roedd 22% o bobl yn teimlo eu bod nhw ddim yn cytuno neu'n anghytuno, neu eu bod nhw'n anghytuno gyda'r datganiad uchod.



Mae angen archwilio'r ffordd y mae'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo mewn Cymunedau









*"Rydw i'n teimlo fy mod i'n gallu dylanwadu ar waith yr Hwb yn y Gymuned yn Ysgol Babanod Glynrhedynog a llywio'r gwaith mae'r hwb yn ei wneud."*

Roedd 89% o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad uchod sy'n nodi bod aelodau'r gymuned yn teimlo fel bod gyda nhw gyfrifoldeb a llais dros yr hwb datblygu yn y gymuned.









*"Rydw i'n deall pa wasanaethau fydd ar gael yn yr Hwb yn y Gymuned yn Ysgol Babanod Glynrhedynog."*

Roedd 100% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod nhw'n deall pa wasanaethau fyddai ar gael yn yr Hwb yn y Gymuned.

Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cynnal achlysuron ymgysylltu â'r gymuned er mwyn cynnal sgwrs â'r gymuned.

***Gwerthusiad***




Dywedodd **64%** o bobl fod yr achlysur wedi bod yn arbennig neu'n dda iawn. Mae hyn yn nodyn cadarnhaol; ond dylen ni archwilio dulliau gwahanol o ymgysylltu â'r gymuned.




Cyn yr achlysur, roedd **12%** o bobl yn teimlo fel eu bod nhw ddim yn deall nac yn meddu ar wybodaeth na chysylltiadau/rhwydweithiau ynghylch yr Hwb yn y Gymuned. Fodd bynnag, ar ôl yr achlysur **doedd neb** yn teimlo fel hyn.




**Prif sylwadau**



**<u>Pethau da</u>**

"Roedd e'n dda i glywed gan y siaradwyr, roedd yr agwedd gadarnhaol yn braf i'w chlywed."

"Roedd y gweithdai yn dda. Trafodaeth dda ynglŷn ag anghenion y gymuned"



"Roedd e'n dda bod pawb wedi cael cyfle i gyfrannu"

"Roedd yr achlysur wedi'i amseru'n dda. Roedd e'n hyfryd gweld y lleoliad"



"Noswaith dda iawn. Mae croeso i chi gysylltu â ni. Hoffwn i roi bach o'm hamser i gefnogi fy nghymuned"

"Roedd pawb wedi cymryd rhan ac roedd hynny'n wych"












**Heriau**

"Doedd yr wybodaeth ddim yn hawdd i bobl ag anableddau dysgu ei darllen"

"Roedd yr achlysur wedi cychwyn yn hwyr"

"Sut cafodd yr achlysur ei hysbysebu? Doedd dim llawer o breswylwyr lleol yn bresennol"

"Mae angen i siaradwyr ddefnyddio meicroffon gan nad oedd yn bosibl i bawb eu clywed nhw"

**<u>Beth nesaf?</u>**




"Rhagor o gyfathrebu a gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd"

"Sicrhau bod pawb yn dod at ei gilydd, yn paratoi'r cynllun ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymuned"




"Efallai ystyried cynnal cymorthfeydd Cynghorwyr/ASau. Efallai nid pob mis, ond sicrhau bod cyfleoedd i gael apwyntiadau ar gael"




"Blwch awgrymiadau. Blwch a ffurflenni i wirfoddolwyr. Rhestr o wirfoddolwyr sydd eu hangen i helpu gyda gweithgareddau"




"Mae angen adeiladu pontydd rhwng sefydliadau yn y gymuned"

"Rhaid i ragor o drigolion lleol gael eu cynnwys, nid partneriaid sydd â budd neu awdurdodau lleol yn unig"

# Geiriau

# MAWR

Ymgysylltu â'r Gymuned = gofyn am farn pobl

 Cadarnhaol = da